



# Cyflawni'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol

## Trosolwg

Nod [Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol](#)

Llywodraeth Cymru yw mynd i'r afael ag anghydraddoldebau hiliol strwythurol yng Nghymru er mwyn gwneud 'newidiadau ystyrlon a mesuradwy i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol drwy fynd i'r afael â hiliaeth' a chyflawni 'Cymru sy'n wrth-hiliol erbyn 2030'. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Gorffennaf ac mae'r ymatebion yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.

Bydd cyflawni'r weledigaeth uchelgeisiol hon yn gofyn am gamau gweithredu ar y cyd sydd wedi'u hystyried yn ofalus. Bydd angen i Lywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus greu cyfres glir iawn o flaenoriaethau a metrigau i sicrhau atebolrwydd dros gyflawni gwelliannau mesuradwy mewn perthynas â chydraddoldeb hiliol. Mae cyfleoedd gwerthfawr i gefnogi'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol drwy ddulliau gweithredu cyson sydd wedi'u cydlunio yn sgil deddfu'r [Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol](#) ym mis Mawrth 2021.

Mae'r sylwebaeth hon yn tynnu sylw at rai o'r camau a allai fod yn angenrheidiol neu'n ddefnyddiol er mwyn sicrhau y caiff nodau'r Cynllun eu cyflawni. Mae hefyd yn:

- Dadlau dros flaenoriaethu gwrth-hiliaeth yn benodol, gan sicrhau ei bod yn cynnal synergeddau â chroestoriadedd, ond nad yw'n cael ei orlifo ganddo.
- Pwysleisio'n benodol bwysigrwydd cyfuno'r data cywir â dulliau atebolrwydd priodol.
- Ystyried ffyrdd o adeiladu ar fewnbynnau a ddarparwyd eisoes gan saith adroddiad

cysylltiedig Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar wella cydraddoldeb hiliol yng Nghymru.

## Problemau gyda dulliau blaenorol

Mae ymdrechion blaenorol i 'reoli amrywiaeth' wedi dioddef am fod y meini prawf a ddefnyddiwyd i fesur cynnydd wedi bod yn:

- **Rhy niferus** (gan arwain at fethiant i flaenoriaethu);
- **Bregus** (roeddent yn llai amlwg am eu bod yn anhyblyg);
- **Gwasgaredig** (maent wedi bod yn amwys ac felly'n amhenodol); a
- **Digyswllt a di-rym** (nid oedd cysylltiad digonol rhyngddynt a goblygiadau neu effeithiau sefydliadol, ac felly nid oeddent yn cynnig digon o gymhelliant i newid ac roedd diffyg atebolrwydd am wneud hynny).

## Sut mae gwrth-hiliaeth yn ddatblygiad?

Gallai cyflawni'r nod o gael 'Cymru wrth-hiliol erbyn 2030', os caiff ei gyflawni, wneud hiliaeth yn rhywbeth hurt, fel y gwnaeth yr awdur Affricanaidd-Americanidd, Percival Everett, yn ei ymateb i gwestiwn gan gyfwelydd:

Fodd bynnag, nid yw gwneud hiliaeth yn rhywbeth hurt yn rhwydd nac yn hunangyflawnol yn sicr. Mae angen gwrth-hiliaeth weithredol, cynnil ac, yn anad dim, *sefydliadol* i fynd i'r afael â hiliaeth sefydliadol.

## Cyfwelydd: Beth, i chi, yw hil?

**Percival Everett: Dyma pryd mae dau neu fwy o bobl, cŵn, ceffylau, neu geir yn ceisio cyrraedd pwynt pell mor gyflym ag y gallant.**

Nid oes angen hiliau er mwyn cael hiliaeth. Nod gwrth-hiliaeth, drwy fynd i'r afael â hiliaeth fel y mae'n digwydd mewn cymdeithas, yw dadwneud ei heffeithiau diriaethol ar fywydau a chyfleoedd bywyd pobl. Mae gwrth-hiliaeth yn wahanol, mewn egwyddor ac yn ymarferol, i'r ddau brif fodel sydd wedi cael eu hyrwyddo dros y blynyddoedd diwethaf, sef cyfle cyfartal ac amrywiaeth a reolir.

## Terminoleg

Nod **cyfle cyfartal** yw ceisio sicrhau bod unigolion yn cael cyfle cyfartal i gymryd rhan neu 'gystadlu' drwy brosesau sy'n trin pawb yn deg neu mewn ffordd debyg.

Mae **amrywiaeth a reolir** yn disgrifio camau gweithredu bwriadol i hyrwyddo prosesau i gynnwys pobl o gefndiroedd gwahanol.

Mae **gwrth-hiliaeth** yn mynd y tu hwnt i'r ddau dull hyn drwy weithredu mewn modd penodol ac ymwybodol i wrthsefyll a mynd i'r afael â hiliaeth systemig a sefydliadol.

Mae dull '**cyfle cyfartal**' yn cynhyrchu ymatebion polisi cyhoeddus sy'n ceisio ynysu canlyniadau gan unigolion hiliol mewn cymdeithas a systemau cymdeithasol. Mae'n trin diwylliant (gan gynnwys hil) fel rhywbeth sy'n ddileadwy o arfer sefydliadol ac mae'n ceisio gwneud arfer o'r fath yn niwtral.

Ar y naill law, caiff gwahaniaethu ar sail hil ei gysyniadu fel pechod, sy'n gofyn am dystiolaeth glir o ymddygiad eithafol mewn achosion unigol

er mwyn cadarnhau'r hyn a ystyrir (ac a gyfyngir fel) cyhuddiad difrifol. Ar y llaw arall, mae llunwyr polisïau yn hyderus eu bod yn gwybod sut i greu prosesau rhyddfrydig sy'n 'ddall i liw' er mwyn sicrhau bod cymdeithas yn cadw at y trywydd cywir, er gwaethaf unrhyw unigolion hiliol. Gall hyn olygu, er enghraifft, ddileu pob cyfeiriad at hil mewn deunyddiau gwneud cais am swydd, neu ddibynnu ar fathau o Brofion Gallu Addysgol 'gwrthrychol' ar gyfer derbyniadau cystadleuol di-hil i brifysgolion. Y syniad yw, unwaith y bydd prosesau 'dall' priodol o'r fath yn cael eu cwblhau, codir y llen, a bydd y ffordd y caiff cyfleoedd ac eithriadau eu dosbarthu wedi hynny yn hanfodol deg, oherwydd ystyrir bod gweithdrefnau dibechod wedi dileu effeithiau hiliol.

Mae '**amrywiaeth a reolir**' yn mynd ymhellach, ac mae'n beirniadu meritocratiaeth sydd i fod yn ddall i hil gan weld, er enghraifft, y gall hyfforddiant drud godi sgorau profion pobl gyfoethog. Ymhellach, mae ymchwil wedi dangos dro ar ôl tro'r ffordd y mae niwtraliaeth dybiedig profion gwrthrychol yn cael ei gwanhau gan lwyth diwylliannol disylw'r cwestiynau a'r cysyniadau yn y profion. Yna ystyrir bod yr amhurdebau hyn yn y broses yn cyfiawnhau ymyriadau rhagweithiol neu reoledig i gywiro canlyniadau cignoeth, fel bod canlyniadau a reolir yn adlewyrchu demograffeg y cefndiroedd yr ystyrir bod yr ymgeiswyr yn dod ohonynt yn well. Gallai hyn fod yn ddull problematig gan ei fod yn lleihau ac yn pylu gwahaniaethau o fewn grwpiau a rhyngddynt – er enghraifft, o fewn y meta-gategori 'BAME' eang a chynyddol ddadleuol yn ogystal â rhwng y categori hwn a'r bobl ar y cyrion, megis y gymuned Roma.

Mae **gwrth-hiliaeth** yn ddatblygiad sylweddol o ran dulliau cyfle cyfartal a rheoli amrywiaeth. Fel y nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, mae'n ymwneud ag '*ymdrechion bwriadol i ddod â hiliaeth systemig a sefydliadol i'r wyneb ac i fynd i'r afael ag ef mewn ffordd weithredol. Ymddengys bod y term gwrth-hiliaeth yn well na chydaddoldeb hiliol, gan ei fod yn awgrymu ymwybyddiaeth gydwythodol ac ymdrechion cadarnhaol i ymdrin â hiliaeth sefydliadol*'.

Mae gwrth-hiliaeth yn mynd i'r afael â methiant dulliau blaenorol i ymdrin â materion sylfaenol cyfiawnder a thrawsnewid ar draws cymdeithas. Lle mae amrywiaeth a reolir yn nodi gwahaniaeth ac yn ei dderbyn drwy oddefiad, mae gwrth-hiliaeth yn meithrin cydawduraeth ddiwylliannol ac nid dim ond y mathau ffurfiol neu weithdrefnol o degwch sy'n diffinio rhyddfrydiaeth hiliol.

Yn y cyfamser, caiff rhyddfrydiaeth hiliol ei chysylltu'n draddodiadol â gwasgariad byd-eang yr alwad am egwyddorion niwtral. Nodwyd yr egwyddorion hyn yn wreiddiol gan Herbert Wechsler, yr ysgolhaig cyfreithiol o'r Unol Daleithiau, a gwestiynodd gyfreithlondeb dadwahanu ysgolion yn 1959 oherwydd dywedodd na allai nodi unrhyw egwyddor niwtral a fyddai'n gwahaniaethu rhwng hawliau plant ysgol du i gysylltu, yn erbyn hawliau plant ysgol gwyn i beidio â gwneud hynny.

Wrth i fethiannau systemig dulliau o'r fath gael eu hamlygu fwyfwy mewn ymwybyddiaeth boblogaidd fyd-eang gan gymunedau sy'n gweithredu ers i'r ymgyrchoedd yn sgil marwolaeth George Floyd ddechrau, mae argyfwng model amrywiaeth a reolir wedi dyfnhau. Mae hiraeth dwysach am gartref a rennir wedi ysgogi tro gwrth-hiliol gweithredol a phenderfyniad i wrthod yr hyn a enwyd yn 'ystryw atgyweirio' yn ddiweddar, hynny yw y syniad y gall arferion dadwleidyddol o wthio a gwneud iawn ddisodli hawliadau cryfach sy'n seiliedig ar gyfiawnder.

## Cyflawni gwrth-hiliaeth erbyn 2030

Er mwyn cyflawni gwrth-hiliaeth, mae angen:

- Disodli 'rhyddfrydiaeth hiliol' a dulliau 'niwtral' a 'lliw-ddall' cysylltiedig o ymdrin â chyfiawnder hiliol drwy roi sylw cydnabyddedig, yn hytrach, i ffenomena cymhleth pŵer hiliol;
- Polisiau a blaenoriaethau a gaiff eu cydgynhyrchu gan y rhai a gaiff eu hystyried yn nhermau hil;

- Cydnabod hiliaeth sefydliadol, felly systemau sy'n gweithredu hiliaeth-heb-hilwyr;
- Cydnabod categorïau ehangach o hiliaeth y tu hwnt i fodolau sy'n seiliedig ar bechod, megis 'troseddau casineb', oherwydd bod y rhain yn denu deinameg orfeiriadol ac, o ganlyniad, alwadau crydol am safonau prawf amhriodol y tu hwnt i amheuaeth resymol;
- Mynegiant manylach o hiliaeth nad yw'n 'amlwg', gan adalw'r newid a gollwyd ychydig yn [Adroddiad Macpherson](#) (1999) o 'droseddau casineb' a gaiff eu plismona'n wrthrychol tuag at gategori ehangach o 'ddigwyddiadau hiliol' a ddiffinnir o safbwynt y dioddefwr (yn hytrach na swyddog yr heddlu);
- Ymchwiliad ffeithiol a chyd-destunol tuag at wrth-hiliaeth sy'n ddyfeisgar ac yn ymrwymedig, nid yn ddifater nac yn brin o adnoddau;
- Cof sefydliadol, sy'n cyd-fynd â chywiriadau hanesyddol ac ymdrechion gwirioneddol i wneud iawn.

**Mae dulliau llywodraethu rhagweithiol yn mynd i fod yn bwysicach na dulliau adweithiol, heb sôn am gosb a gwylidwriaeth.**

## Metrigau ailadroddus y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol

Bydd cael ffyrdd da o fesur cynnydd yn hanfodol i gyflawni'r nod o gael Cymru wrth-hiliol. Mae polisi ac arferion presennol sydd â'r nod o gyflawni cydraddoldeb hiliol ym maes trosedd a chyfiawnder er enghraifft, yn pwysleisio fod angen datgelu metrigau yn well, chasglu a dadansoddi data yn fwy rheolaidd a bod yn fwy tryloyw wrth wneud hyn. (Gweler, er enghraifft,

[Adolygid Lammy](#) 2017, sef adolygiad annibynnol o'r ffordd y caiff unigolion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol eu trin yn y system cyfiawnder troseddol, a'u canlyniadau).

Ac eto, mae lle i ddadlau bob amser, ar draws yr holl themâu a meysydd polisi a gwmpesir yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, am ystyr a pherthnasedd metrigau penodol. Mae angen sicrhau bod metrigau yn hyblyg ac y cânt eu harchwilio mewn modd deallus, yn hytrach na'u hystyried fel rhywbeth sy'n rhoi ateb syml a phendant i'r cwestiwn 'a ydym yn cyflawni Cymru wrth-hiliol?'. Er enghraifft, os bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn rhyddhau cyfran fwy o fenywod du heb gyhuddiad na grwpiau eraill, a yw hyn yn dangos bod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn wrth-hiliol neu dim ond bod gogwydd anghymesur o ran hil a rhywedd yn arestiaidau'r heddlu, sy'n targedu menywod du yn anghymesur?

Drwy fynd ati i greu ymholiadau ailadroddus o'r fath **ynghylch sut mae newidiadau yn y system ac mewn polisi yn gweithredu'n ôl ar amcanion gwrth-hiliol y system gyfan** pan gânt eu hystyried yn gyfannol, mae'r Cynllun yn holi'n weithredol pa wahaniaethau all fod angen **gwahanol fathau o esboniad neu addasiad**, a sut mae'r rhain yn newid dros amser.

Yn ogystal, mae **integreiddio metrigau amrywiol, ac asesu p'un a ydynt yn berthnasol i'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ai peidio, ac ym mha ffordd**, yn dasg sylweddol ynddo'i hun. Ni ellir tybio, er enghraifft, y bydd y cyhoedd neu lunwyr polisiâu hyd yn oed yn ymwybodol o'r gwerth a ychwanegwyd at y Cynllun gan y [Fframwaith Mesur ar gyfer](#) [Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a luniwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#) (2017), nac y byddant yn ei ddeall ohonynt eu hunain. Ni ddylid cymryd defnydd eang o ddeg **nodwedd allweddol** y Fframwaith yn ganiataol ychwaith ac ni ellir trafod hyn yn ddigonol o fewn cyfyngiadau lle y ddogfen hon. Ond, yn fras, mae'r nodweddion allweddol yn hyrwyddo croestoriadedd tra bo'r Cynllun Gweithredu

Cydraddoldeb Hiliol yn effro i effeithiau sy'n wahaniaethol o ran hil.

Er bod y rhain o bosibl yn synergyddol, mae'r bwlch hwn yn cyfeirio at ffrwd waith hanfodol: gwaith i gyfosod y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a Fframwaith y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2017, a nodir yma fel blaenoriaeth allweddol y mae angen rhoi sylw gweithredol iddi wrth symud ymlaen.

## Yn erbyn casglu metrigau

Mae set ddelfrydol o fetrigau yn ennyn hygredd drwy ddarparu ffeithiau y cytunwyd arnynt sy'n sail i farn gyffredin am y byd polisi. Yna gall y ffeithiau hyn ddod yn destun dadl ar sail polisi ynghylch opsiynau ar gyfer atebion. Yn eu tro, caiff yr opsiynau hyn eu profi yn erbyn y ffeithiau y cytunwyd arnynt, neu fersiwn o realiti, sydd bellach yn cael ei drin yn ddiogel (at ddibenion trafod a phenderfynu), fel rhywbeth y tu hwnt i gwestiwn.

Fodd bynnag, ymddengys fod y broses o ddewis metrigau (**beth y dylid ei fesur?**) ac yna'r gwaith o ddadansoddi'r data a gesglir yn unol â nhw (**beth mae'r metrigau'n ei awgrymu neu'n ei ddynodi?**) yn destun gwahanol fathau ychwanegol o ddadl wleidyddol, a chamddefnydd o bosibl. Rhaid rhagweld y rhain a'u rheoli eu hunain.

O dan y categori cyntaf (gwleidyddiaeth *beth y dylid ei fesur*) gellid ystyried ymdrechion diweddar y Prif Weinidog Boris Johnson i fynnu'r canlynol: 'I've given you the most important metric, which is—er, I mean never mind life expectancy, never mind uh, uh, you know, cancer outcomes or . . . look at, look at, wage growth' (BBC, 3 Hydref 2021).

O dan yr ail gategori (gwleidyddiaeth *goblygiadau'r metrigau a ddewisir*), mae darluniau byw yn clystyru o amgylch profiadau 'dyngarol' diweddar yn Affganistan. Dywedodd un o uwch-swyddogion Cyngor Diogelwch Cenedlaethol yr Unol Daleithiau wrth sôn am dwf yr Arlywydd Obama dros y degawd diwethaf: 'It was impossible to create good metrics. We tried using troop numbers trained,

violence levels, control of territory and none of it painted an accurate picture. The metrics were always manipulated for the duration of the war'. Ychwanegodd y Cynol Bob Crowley, Uwch-gynghorydd Gwrthchwyldroadaeth: 'Every data point was altered to present the best possible picture. Surveys, for instance, were totally unreliable but reinforced that everything we were doing was right and we became a self-licking ice cream cone'. Mae'r mewnwediadau sylfaenol hyn ynghylch cynllunio metrigau, a'r posibilrwydd o'u camddefnyddio, yn gludadwy ar gyfer bywyd sifiliaid, y tu hwnt i ymyrraeth ddyngarol a natur ddatblygiadol, ac maent yn bresennol waeth beth fo'r ffiniau cenedlaethol a'r seilios polisi.

Wrth edrych yn ôl, realiti'r fenter benodol yn Affganistan fel rhywbeth nad oedd yn ddyngarol yn unig oedd yr unig beth a fyddai wedi bod yn amhosibl ei greu fel metrig yn ystod y prosiect, oherwydd bod y realiti hon yn sylfaenol groes i resymeg y prosiect a gyhoeddwyd: 'Our biggest single project, sadly and inadvertently, of course, may have been the development of mass corruption', ildiodd Ryan Crocker, Llysgennad Affganistan o dan Bush ac Obama, yn hwyr.

Mae cipio polisi fel hyn yn digwydd yng nghydestun llawer llai lliwgar (neu liwgar mewn ffordd wahanol) gwrth-hiliaeth hefyd. Mae cipio polisi yn codi pan fydd gweinyddwyr yn blaenoriaethu hunan-bwysigrwydd sefydliadol a chyllidebau adrannol, gan arwain at ddiffyg cysondeb ag atebolrwydd allweddol a gwiriadau synnwyr. Er enghraifft, er bod argymhellion 31 a 32 yn [Adolygiad Lammy](#) yn ceisio gwella'r metrigau a'r telerau cytundebol sy'n gymwys i Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol (sy'n gyfrifol am reoli troseddwyr yn y gymuned), chwalodd y system trefnu drwy gontract allanol sylfaenol, heb gymorth gan unrhyw ddiad gan unrhyw fetrigau, erbyn mis Rhagfyr 2020. Nid metrigau ydoedd, ond anymarferoldeb llwyr y model sylfaenol, ideolegol o brosesau trefnu drwy gontract allanol a ysgogir gan elw, ar gyfer Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol.

Mae'r ystyriaeth hon o ddatgysylltiad rhwng metrigau a gwirioneddau yn awgrymu bod pedair risg y mae angen i'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol (a pholisïau cysylltiedig sydd â metrigau ychwanegol eu hunain) geisio eu hosgoi:

1. **Gormod o fetrigau:** Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)](#) 2015 yn cyfrannu 46 o ddangosyddion cenedlaethol ychwanegol, wedi'u hymgorffori yn Fframwaith Mesur 2017 y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Pa fetrigau sy'n berthnasol ac yn strategol i'r broses o roi'r Cynllun ar waith?
2. Gall cyfatebolrwydd hawdd tybiedig y metrigau niferus hyn, yn ymarferol, arwain at '**chwarae' metrigau**, lle cânt eu didoli, fel bwffe, a'u dewis er hwylustod gan y rhai y bwriedir iddynt gyfyngu arnynt.
3. Bydd ymdrechion i wahanu **strwythur** (y cyfreithiau), **proses** (ymdrechion y llywodraeth) a **chanlyniadau** (profiad ar lawr gwlad fel canlyniadau terfynol) yn llai perthnasol nag ymdrechion cydbenderfynol i ryngweithio ac integreiddio'r ysgogiadau hyn.
4. Cyflwynir Fframwaith Mesur 2017 y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol dan uchelgais gyffredinol i fod yn arweinydd byd-eang ym maes monitro cydraddoldeb a hawliau dynol. Ond mae'r argyfyngau yn sgil effaith COVID-19 wedi dangos y gall cyhoeddi systemau ac uchelgeisiau o'r radd flaenaf, hyd yn oed pan gânt eu gwireddu'n rhannol (fel llwyddiant y brechlyn er enghraifft), **dynnu sylw oddi wrth wirioneddau mwy amlwg** (fel methiant y rhaglen profi ac olrhain a oedd i fod i 'arwain y byd').

Gan nad yw deddfiad Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol Cymru ym mis Mawrth 2021 yn creu unrhyw hawliau y gall unigolion eu hunain eu gorfodi ar eu menter eu hunain yn erbyn unrhyw sefydliad, ac am nad yw'n defnyddio pwerau gorfodi'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn erbyn gweithredoedd

anghyfreithlon, ni fydd unrhyw fath o adnoddau arloesol a gyhoeddir yn unol â'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn cael cymaint o effaith â dull amlyfactoraidd, ailadroddus ac integredig manwl ar draws holl feysydd polisi'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. **Mae dulliau llywodraethu rhagweithiol yn mynd i fod yn bwysicach na dulliau adweithiol, heb sôn am gosb a gwyliadwriaeth.**

Mae'r cyfuniad o COVID-19 ac anghyfiawnder hiliol wedi rhoi llwyfan da i'r dadleuon hyn ac mae wedi taflu 'goleuni du' ar lawer o gymdeithasau: mae rhyw fath o oleuni uwchfioled a alluogwyd gan y pandemig wedi tynnu sylw at strwythurau o anghyfiawnder hiliol a fyddai'n cael eu bwrw i'r cysgod fel arfer. Mae hyn yn gwneud y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn amserol.

## Y camau nesaf

Mae angen camau nesaf er mwyn:

- **Diffinio sefyllfa derfynol y nod o fod yn 'wrth-hiliol erbyn 2030'** fel canlyniad yn 2030 ac ar ôl hynny at ddibenion cynnal a beirniadu;
- **Nodi ysgogiadau allweddol** ('sut') a themâu allweddol ('beth') y nod o fod yn 'wrth-hiliol erbyn 2030';
- Helpu Grŵp Atebolrwydd y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i **ymgorffori data ac atebolrwydd dadansoddol** fel rhan o'r holl ysgogiadau a themâu (gan alinio'r 'sut' â'r 'beth' a chyda'r sefyllfa derfynol);
- **Cyfosod metrigau'n feirniadol rhwng y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a chymorth posibl arall** megis Fframwaith y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru;
- Pwysu a mesur metrigau lluosog **drwy gynnal archwiliad pwrpasol o'u perthnasedd i'r Cynllun** ac ysgogi hyn fel tasg ddadansoddol greadigol:

- Ni chaiff perthnasedd unrhyw fetrigau penodol i'r Cynllun ei ganfod, caiff ei greu: ni fydd yn amlwg a yw'r metrigau yn berthnasol ai peidio heb ddadansoddiad meddylgar a phenodol;
- **Rhagweld/datrys bylchau mewn data** ar gyfer metrigau sy'n berthnasol i'r Cynllun y gellir gweithredu arnynt, ar ôl pennu hyn;
- Ymgorffori pob un o'r camau uchod mewn **rhwydwaith galluogi o fframweithiau cyfreithiol**, e.e. drwy:
  - Ddehongliadau creadigol o gyfreithiau diogelu data a rhyddid gwybodaeth;
  - Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a dyletswyddau a rheoliadau cydraddoldeb eraill, yn ogystal â'r Ddeddf Hawliau Dynol;
  - Ymchwilio i ddulliau hawliau dynol a llwybrau 'cyfraith feddal' a 'phŵer meddal';
- Beirniadu, lledaenu a rhannu gwybodaeth ac arferion gorau;
- **Dechrau adolygiad cyflym o'r gwersi a ddysgwyd** mewn perthynas â maglau cynnar wrth weithredu [Uned Gwahaniaethau ar sail Hil y DU](#) er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu [menter Llywodraeth Cymru](#).

Mae pwysigrwydd gweithio ar draws seilios yn glir. Roedd [Adolygiad Lammy](#) 2017, er enghraifft, yn deall sut mae problemau hiliol yn llifo o sectorau neu sefydliadau i gymdeithas ehangach: 'I present my findings and recommendations with one major qualification: many of the causes of BAME over-representation lie outside the CJS, as do the answers to it.'

Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen ehangach am yr hyn a elwir yn gydweithrediadau '[siâp T](#)' er mwyn rhoi'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar waith, lle rhoddir mwy o bwyslais ar sgiliau ni waeth beth fo unrhyw wahaniaethau. Gyda'i gilydd, mae'r camau nesaf yn awgrymu bod lle i gynnal **ymarferion**

gwrando ymhlith rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod cymaint o atebolrwydd â phosibl ynghlwm wrth y broses o weithredu'r Cynllun ac i ddatblygu momentwm y tu ôl i seilos.

## Cyfeirnodau

Crenshaw, K. (2017). **Race Liberalism and the Deradicalisation of Race Reform**. 130, Harvard Law Review, 2298.

Stuelke, P. (2021). **The Ruse of Repair: US Neoliberal Empire and the Turn from Critique**. Gwasg Prifysgol Duke

Wechsler, H. (1959). **Toward Neutral Principles of Constitutional Law**. 73 Harvard Law Review, 1.

Peller, G. (1988). **Neutral Principles in the 1950s**. 21, Journal of Law Reform Prifysgol Michigan, 561

## Rhagor o wybodaeth

Gweler cyfres lawn Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru o adolygiadau tystiolaeth cyflym ar wella cydraddoldeb hiliol yng Nghymru [yma](#).

## Manylion yr Awdur

Fel ymgynghorydd annibynnol, bu **Ronald Roberts** yn cynghori sawl adran yn llywodraethau gwrth-apartheid De Affrica yn ystod cyfnodau'r Arlywydd Mandela a'r Arlywydd Mbeki (1994-2008) ar y gyfraith, polisi, diwylliant a strategaeth a'r broses sectoraidd o weithredu gwrth-hiliaeth, gwirionedd a chymodiad. Mae ei waith ar bolisiau gwrth-hiliaeth wedi cael ei gyhoeddi'n eang, o'i waith arloesol cynnar ar ddamcaniaeth hil feirniadol (*Clarence Thomas and the Tough Love Crowd: Counterfeit Heroes and Unhappy Truths*; Gwasg NYU, 1994) a gwrth-hiliaeth ôl-apartheid (*Reconciliation Though Truth: A Reckoning of Apartheid's Criminal Governance*; Rhagair gan Nelson Mandela), i *Future Harbours: Letters From President Thabo Mbeki* (Johannesburg: Real African Publishers, i ddod ym mis Tachwedd 2021) a gwblhawyd yn ddiweddar, sef y cyntaf o dair cyfrol sy'n seiliedig ar wladweinyddiaeth wrth-hiliol.

## Ynglŷn â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio gydag arbenigwyr polisi blaenllaw er mwyn darparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sydd yn eu helpu i wella penderfyniadau polisi a deilliannau.

Mae'r Ganolfan, sydd wedi ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol

a Llywodraeth Cymru, wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n rhan o Rwydwaith Beth Sy'n Gweithio y DU.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Manon Roberts**

+44 (0)29 2087 5345

[manon.roberts@wcpp.org.uk](mailto:manon.roberts@wcpp.org.uk)

## Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd, 10/12 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BG



[www.wcpp.org.uk/cy](http://www.wcpp.org.uk/cy)



029 2087 5345



[info@wcpp.org.uk](mailto:info@wcpp.org.uk)



@WCfPP

